**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Iau, Rhagfyr 18fed 2014 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau:

Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ifor G Edwards, Gwyn Williams, Ian W Griffith, Cyngh Dilwyn O Roberts a'r Clerc.
Roedd tri aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

34.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad mewn eitem ar yr Agenda. Mynegodd Ifor Edwards gysylltiad ag eitem 6 Materion Cynllunio 0/41272. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r cyfarfod at bwyntiau 1.4 ac 20 o'r Rheolau Sefydlog sef y 'trefnir i gyfieithydd fod yn bresennol pan fo gofyn trwy drefniant blaenorol gyda'r Clerc neu'r Cadeirydd' a threfniadau'r cyhoedd i siarad mewn cyfarfodydd. PENDERFYNWYD i hysbysu hyn ar yr hysbysfyrddau, ar y wefan ac yn y cylchlythyr.

34.2 COFNODION – cynigiodd Diane Roberts ac eiliodd Ian Griffith a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod Tachwedd 26ain 2014 yn gofnod cywir. Hefyd cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Cronfa Bro Cernyw Tachwedd 26ain yn gofnod cywir.

34.3 MATERION YN CODI
34.3.1 MYNWENT GWYTHERIN Cofnod 33.9 – mynegodd Tecwyn Evans bod y gwaith ar y gweill a'i fod angen cyfarfod â'r contractwr yn fuan.
34.3.2 CRONFA BRO CERNYW – nid oedd Aelwyd Bro Cernyw wedi derbyn grant drwy Bartneriaeth Wledig Conwy ac roedd angen i'r Clerc holi a oeddent yn dal i ddymuno gael cymorth. Hefyd bydd angen ail drafod cais yr Amgueddfa ar ddechrau'r flwyddyn.

34.4 MATERION FFYRDD
34.4.1 ARWYDD RHYBUDD PLANT YN CHWARAE – nid oedd yr Adran Traffig yn gweld bod posib gosod arwydd rhybudd arall wrth fynedfa Pandy Tudur. Trafodwyd y posibilrwydd o osod arwydd ein hunain ac i'w drafod eto yn Mawrth/Ebrill.
34.4.2 LLINELLAU GWYN – nid yw llinellau gwynion wedi eu peintio yn dilyn ail wynebu ger Rhos Isaf.

34.5 CEISIADAU CYNLLUNIO

34.5.1 CAIS RHIF 0/41272 Cadw Mynedfa Amaethyddol Ddiwygiedig (Cais Ôl-weithredol) ar dir yn Hendre Llwyn y Maen, Llangernyw gan Mr Robin Crossley – gadawodd Ifor Edwards y cyfarfod. Wedi trafodaeth PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais. Ond PENDERFYNWYD i holi'r Adran Cynllunio pam fod ceisiadau ôl-weithredol yn dod o'n blaen a beth yw polisi'r awdurdod ar geisiadau o'r fath.

34.5.2 CAIS RHIF 0/41299 Codi Adeilad Amaethyddol (caniatâd blaenorol) yn Merddyn, Gwytherin gan Mr Bleddyn Thomas. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais. Ond PENDERFYNWYD i holi'r Adran beth yw ystyr 'canaiatâd blaenorol' a welir ar rai ceisiadau.

34.5.3 CAIS RHIF 0/41300 Tynnu nifer fach iawn o flagur oddi ar 1 goeden ywen i luosogi coed ifanc yn Eglwys San Digain, Llangernyw gan Mr Ian Sturrocks – PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

34.6  GRANT ADNEWYDDU PENTREFI – trafodwyd y meinciau newydd a’r blychau blodau a phenderfynwyd meddwl eto am safle i fainc Llangernyw; i gyfarfod Emlyn Williams ynglŷn a safle blwch blodau Gwytherin; bod leinio’r blychau yn bwysig cyn eu llenwi â phridd; ac i holi’r Clwb Garddio am gymorth gyda’r blodau.

34.7  Y GYLLIDEB – paratôdd y Clerc daflen gwariant ac amcangyfrif 2015 a PHENDERFYNWYD i gael golwg arni a thrafod y praesept mewn cyfarfod o’r Cyngor ar Ionawr 13eg.  Hefyd bydd angen rhoi ‘Arhosfan bws’ ar yr Agenda nesaf.

34.8  BANCIO AR-LEIN – derbyniodd y Clerc ffurflenni gan y banc yn dilyn talu am offer y grant drwy drosglwyddiad banc.  PENDERFYNWYD i adael hyn ar y bwrdd.

34.9  CEISIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i beidio cyfrannu at Gŵyl Cerdded Conwy a Chymdeithas Strôc.

34.10  TOILEDAU LLANGERNYW – derbyniwyd llythyr yn dweud bod y broses ddemocrataidd ynglŷn a throsglwyddo’r toiledau wedi ei chwblhau a bod posib bwrw ymlaen â’r prosiect erbyn hyn. Roedd y swyddogion yn awyddus i ddod i gyfarfod o’r Cyngor i drafod ymhellach a chynigwyd iddynt ddod ar Ionawr 13eg neu i gyfarfod 28ain Ionawr.  Byddai’n fuddiol cael gweld y cynlluniau a bod contractwyr lleol yn cael cyfle i roi pris ar y gwaith.  Diolchwyd i’r Cynghorydd Dilwyn Roberts am ei gymorth gyda’r toiledau a chyda materion yn gyffredinol.

34.11  MATERION I’W GYRRU AR EBOST – y Clerc i anfon dogfennau canlynol ymlaen: Penodiad Cyngor Iechyd Cymuned; Canllawiau Cynllunio; Comisiynydd Plant; Governence and Accountability Dec 2014; Deall y Cynulliad; Trafnidiaeth Cymru.

34.12  MATERION ERAILL
34.12.1 Twll ar ochr y ffordd A548 o dan Fron Goch – yr ochr yn feddal iawn.  Oes angen ystyried gosod bariau diogelwch yma.
34.12.2 Mynegwyd pryder nad oedd loriau graeanu o gwmpas fore Sadwrn 15fed Rhagfyr a’r ffyrdd yn llithrig iawn.
34.12.3  Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen i bawb.

34.13  BILIAU
D Evans (Chweched toriad Mynwentydd)          £360

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 y.h.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ...E H Edwards.................................  Dyddiad 13 Ionawr 2015.....*

Community Council Meeting held Thursday, December 18th 2014 at 7.30 pm at Pandy Tudur

Apologies:

Present: Elen H Edwards (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ifor G Edwards, Gwyn Williams, Ian W Griffith, Cllr Dilwyn O Roberts and the Clerk. Three members of the public present.

34.1 DECLARATION - an opportunity for members to declare an interest in item on the Agenda. Ifor Edwards expressed connection with item 6 Planning Matters 0/41272. The Chair drew the attention of the meeting to points 1.4 and 20 of the Standing Orders which states that 'a translator can be arranged to be present when required by prior arrangement with the Clerk or the Chair' and the rules regarding members of the public to speak at meetings . RESOLVED to inform the public on the noticeboards, on the website and in the newsletter.

34.2 MINUTES - Diane Roberts proposed and Ian Griffith seconded and all agreed that the minutes of 26 November 2014 were a true record. It was also agreed that the minutes of the Cronfa Bro Cernyw Fund 26th November was an accurate record.

34.3 MATTERS ARISING
34.3.1 CEMETERY GWYTHERIN Record 33.9 - Tecwyn Evans expressed that the work was in progress and needs a meeting with the contractor soon.
34.3.2 BRO CERNYW FUND – Aelwyd Bro Cernyw had not approached the Conwy Rural Partnership for a grant and the Clerk was to ask if they still needed a grant. The Museum application will also need to be discussed in the new year.

34.4 ROAD ISSUES
34.4.1 WARNING SIGNS OF CHILDREN PLAYING - Traffic Department did not see that another warning sign could be placed near the entrance of Pandy Tudur. There might be a possibility of placing a sign ourselves and to be discussed again in Mar / April
34.4.2 WHITE LINES - no white lines havebeen painted following resurfacing near Rhos Isaf.

34.5 PLANNING APPLICATIONS
34.5.1 APPLICATION NO 0/41272 Retention of Altered Agricultural Access (retrospective application) at land at Hendre Llwyn y Maen, Llangernyw by Mr Robin Crossley - Ifor Edwards left the meeting. After discussion it was RESOLVED by the majority to support the application. RESOLVED to ask the Planning Department why retrospective applications come forward and what is authority's policy on such applications.
34.5.2 APPLICATION NO 0/41299 Erecting Agricultural Building (prior consent) in Merddyn, Gwytherin by Mr Bleddyn Thomas. RESOLVED to support the application. But RESOLVED to ask the Department what is the meaning of‘’prior consent’ on some applications.
34.5.3 APPLICATION NO 0/41300 Removal very small number of buds from 1 to propagate yew tree saplings in St. Digain, Llangernyw by Mr Ian Sturrocks - RESOLVED to support the application.

34.6 GRANT RENEWAL OF VILLAGES - discussed the new benches and flower boxes and decided to think again about the site of the bench in Llangernyw; to meet Emlyn Williams on site re Gwytherin flower box; that the boxes should be lined before filling with soil; and to ask the Gardening Club for help with the flowers.

34.7 BUDGET - The Clerk prepared expenditure and estimated expenditure for 2015/16 RESOLVED to have a look at it and discuss the precept at a meeting of the Council on January 13. Also need to place 'Bus stop' on the next agenda.

34.8 BANKING ONLINE - Clerk received forms from the bank following paying for the equipment grant by bank transfer. RESOLVED to leave this on the table.

34.9 FINANCIAL APPLICATIONS - RESOLVED not to contribute to Conwy Walking Festival and Stroke Association.

34.10 TOILET LLANGERNYW - received a letter saying that the democratic process on a transfer of the toilets has been completed and it is possible to proceed with the project now. The officials were keen to attend a meeting of the Council to discuss further and offered to come on January 13th or 28th January meeting It might be useful to see the plans and make sure that local contractors have the opportunity to quote on the work. Councillor Dilwyn Roberts was thanked for his help with the toilest and with issues in general.

34.11 DRIVING ON ISSUES TO EMAIL - Clerk to send the following documents on: Appointment CHC; Planning Guidance; Children's Commissioner; Governence and Accountability Dec 2014; Understanding the Assembly; Transport Wales.

34.12 OTHER ISSUES
34.12.1 Hole roadside A548 under Fron Goch - the side is very soft. Need to consider the installation of safety barriers here.
34.12.2 Concern was expressed that no grit was spread on Saturday morning December 15th and the roads were very slippery.
34.12.3 The Chairman wished Merry Christmas to all.

34.13 BILLS
D Evans (Sixth cut Cemetery) £ 360

The meeting ended at 9.20 y.h.

Minutes were approved ....*Elen H Edwards*........................... . Date ...13/1/15...........................